Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
Gwybodaeth am roi mêr esgyrn a bôn-gelloedd gwaed amgantol

Os ydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn ystyried rhoi mêr esgyrn neu fôn-gelloedd gwaed amgantol (PBSC), bydd y daflen hon yn rhoi gwybodaeth am rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) yn y broses asesu. Mae bôn-gelloedd gwaed amgantol yn gelloedd sydd yn y llif gwaed sy'n gallu datblygu yn bob un o'r gwahanol fathau o gelloedd yn y gwaed.

Mae'r daflen hon yn darparu manylion am:

- y gyfraith yn ymwneud â rhoi mêr esgyrn a'r PBSC;
- rôl yr HTA, sy'n rheoleiddio'r rhoddion hyn;
- pwy all fod yn rhoddwr;
- proses asesu'r HTA y mae angen i'r rhoddwr a'r person sy'n derbyn y trawsblaniad (y derbyniwr) fynd drwyddi cyn y gall y rhodiad fynd yn ei flaen.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y daflen hon, ynghyd â'r wybodaeth arall y byddwch chi'n ei derbyn gan yr uned drawsblannu. Yn y ffordd hon, byddwch chi'n gwybod yn gymwys beth mae'n ei olygu i'r rhoddwr (neu i'r person sy'n gweithredu ar ei ran), a'r person fydd yn derbyn y trawsblaniad.

Deddf Meinweoedd Dynol a rôl yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rheoleiddir rhoi mêr esgyrn a PBSC gan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf MD). Yn yr Alban, rheoleiddir mêr esgyrn a roddwyd gan blant gan Ddeddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006. Mae'r ddwy gyfraith hyn yn adlewyrchu gwelliannau o ran arferion da, yn enwedig mewn perthynas â chael cydsyniad (neu ganiatâd) pobl cyn rhoi mêr esgyrn.

Rydym ni, yr HTA, yn darparu cyngor ac arweiniad ar Ddeddf MD ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn ei dilyn. Ein nod yw creu fframwaith ar gyfer rhoi sy'n glir ac y mae gan gleifion, teuluoedd a staff proffesiynol hyder ynddo. Rydym yn cynnwys aelodau lleyg (aelodau heb ddiddordeb proffesiynol) ac aelodau proffesiynol.

Rydym yn gyfrifol am gymeradwyo pob rhodd o fêr esgyrn neu PBSC oddi wrth blant ac oedolion nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniad gwybodus. Nid yw'r plant neu'r oedolion hyn yn gallu, am ba bynnag reswm, gytuno â'r rhodd.

Yr ysbyty, ac nid ni, sy'n cymeradwyo'n lleol roddion o fêr esgyrn a PBSC gan blant ac oedolion sy'n gallu cydsynio.

Pam rhoi mêr esgyrn neu PBSC?

Fel arfer bydd pobl ag afiechydon difrifol fel canser neu lewcemia yn derbyn cemotherapi neu radiotherapi fel rhan o'u triniaeth. Yn ogystal â dinistrio celloedd canser, gall y driniaeth hon niweidio eu bôn-gelloedd mêr esgyrn. Mae trawsblannu bôn-gelloedd normal o fêr esgyrn neu o waed amgantol yn gadael i feddygon roi dosys llawer mwy o gyffuriau ac ymbelydredd i'r bobl hynny. Mae'r bôn-gelloedd a roddwyd yn 'achub' y claf. Hefyd, mae'n bosibl y bydd y trawsblannu'n cynhyrchu celloedd imiwnedd sy'n helpu i ymestyn gollyngdod y claf o'i salwch (sef pan nad oes canser ar y claf ar hyn o bryd).

Pwy sy'n cael rhoi mêr esgyrn neu PBSC?

Gellir cymryd mêr esgyrn a PBSC oddi wrth roddwyr byw yn unig. Fel arfer perthynas agos, fel brawd neu chwaer, fydd y rhoddwr mwyaf addas. Mae siawns un allan o bedwar y bydd brawd neu chwaer yn cydweddu'n dda.

Os nad yw brawd neu chwaer yn cydweddu'n dda, mae weithiau'n bosibl y bydd rhywun nad yw'n berthynas yn cydweddu. Fodd bynnag, i helpu i leihau cymhlethdodau o'r trawsblaniad, mae'n well cael rhoddwr sydd â gwneuthuriad genetig tebyg.

Mae'n bwysig eich bod yn llawn ddeall y gweithdrefnau a'r risgiau sydd ynghlwm â rhoi mêr esgyrn neu PBSC cyn i'r trawsblaniad fynd yn ei flaen. Bydd eich canolfan drawsblannu'n gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â hyn fel y byddwch chi'n gwybod yn iawn beth sydd ynghlwm ag ef.

Cydsyniad

Rhaid inni sicrhau bod y rhoddwr wedi rhoi ei ganiatâd am i'r rhodd ddigwydd.

Os nad yw plentyn yn gallu rhoi caniatâd, bydd rhaid i rywun weithredu ar ei ran er mwyn cytuno â'r rhodd. Mae'n debygol mai rhiant neu rieni'r plentyn fydd yn gwneud hyn. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch buddion gorau'r plentyn, dylid cyfeirio'r mater i lys am gymeradwyaeth.

Yn yr achosion prin pan na fydd oedolyn yn gallu rhoi caniatâd, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i lys ddweud y gall y rhodd ddigwydd.

Proses asesu

Cyn bod trawsblaniad yn gallu digwydd, mae'n rhaid i'r rhoddwr a'r derbyniwr gael eu hasesu'n drylwyr i wneud yn siŵr bod y driniaeth hon yn addas i'r derbyniwr, ac nad oes risg ddiangen i'r rhoddwr. Mae hyn yn cynnwys profion meddygol, gwiriadau i sicrhau eu bod yn cydweddu, a thrafodaethau ynghylch risgiau a buddion y weithdrefn.

Yn achos rhoddwyr plant, mae'n bwysig eu bod yn deall y wybodaeth i lefel sy'n gyson â'u hoedran. I blant iau, gall y broses hon gynnwys sesiwn gyda therapydd chwarae. Os yw'r plentyn yn rhy ifanc i ddeall gwybodaeth ynghylch y rhodd, mae'r person sy'n gweithredu ar ei ran (fel arfer ei riant) yn llawn ddeall y weithdrefn a'r risgiau.

Gall y rhoddwr a'r derbyniwr dynnu yn ôl o'r weithdrefn ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod asesu, a hyd at yr adeg pan fydd y driniaeth yn dechrau.

Mae'n rhaid i unrhyw roddwr nad yw'n gallu rhoi ei ganiatâd gael cyfweliad gydag Aseswr Achrededig (AA) sy'n gallu argymell a ddylwn ni roi caniatâd i'r rhodd fynd yn ei flaen neu beidio. Mae'r AA yn gweithredu fel ein cynrychiolydd ac ni ddylai fod yn un o'r meddygon neu'r nyrsys sy'n gyfrifol am y rhoddwr a'r derbyniwr. Bydd yr AA yn cyfweld â'r rhoddwr, neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth sydd ynghlwm wrth y rhodd.

Mae'n rhaid i'r AA sicrhau:

- ymarferydd meddygol cofrestredig wedi esbonio i'r rhoddwr (neu i'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) natur y weithdrefn feddygol, y risgiau sydd ynghlwm a'r effeithiau ar y teulu;
- bod y rhoddwr (neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) yn deall y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig, ac yn cytuno i'w fêr esgyrn neu PBSC gael ei gymryd;
- bod y rhoddwr (neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) wedi rhoi ei ganiatâd o'i wirfodd;
- bod y rhoddwr (neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) yn deall bod ganddo hawl i dynnu ei ganiatâd yn ôl ar unrhyw adeg, ac yn deall beth fydd hyn yn ei olygu i'r derbyniwr.

Gwobr

Bydd yr AA yn rhoi adroddiad i'w adolygu inni . Mae'n rhaid ein bod yn fodlon nad yw'r rhoddwr (neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) o dan unrhyw bwysau i roi a'i fod wedi rhoi ei ganiatâd o'i wirfodd. Mewn geiriau eraill, mae angen ein bod yn fodlon nad oes unrhyw dystiolaeth o wobr amhriodol sy'n effeithio ar benderfyniad y rhoddwr (neu'r person sy'n gweithredu ar ran y rhoddwr) i gytuno ar y weithdrefn.

Os ydych chi'n gweithredu ar ran rhoddwr, mae'n bwysig deall, er ei bod yn beth arferol i gynnig gwobr i blentyn i wneud yn iawn am brofiad amhleserus – fel mynd i ysbyty neu gael llawdriniaeth boenus – mae'n rhaid peidio â defnyddio gwobr i berswadio plentyn i gytuno i'r llawdriniaeth.

Mae'n anodd penderfynu beth yw gwobr briodol i blentyn, gan fod hyn yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng teuluoedd a diwylliannau gwahanol. Mae'n bosibl y bydd rhai gwobrau'n dylanwadu ar benderfyniad y rhoddwr ac yn ei berswadio i wneud y rhodd. Ni fyddwn yn cymeradwyo rhodd os oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r rhoddwr wedi cydsynio o'i wirfodd. Os nad ydych chi'n siwr, dylech chi drafod hyn gyda'r cydlynydd trawsblannu yn yr ysbyty y byddwch chi'n mynd iddo, neu gyda'r Aseswr Achrededig.

Sylwer

Mae'n drosedd cynnal llawdriniaeth trawsblannu rhwng dau berson byw os na fodlonir amodau'r Ddeddf HT. Mae hyn yn cynnwys y rhoddwr a'r derbyniwr yn rhoi caniatâd. Mae hefyd yn drosedd i ymwneud â phrynu neu werthu meinweoedd dynol i'w defnyddio mewn trawsblaniad, neu i hysbysebu prynu neu werthu meinweoedd dynol. Y gosb am y troseddau hyn yw dedfryd o garchar o hyd at dair blynedd, neu ddiryw, neu'r ddau.

Rhagor o wybodaeth

Canllaw yn unig yw'r daflen hon. Am ragor o wybodaeth amdanom ni neu am Ddeddf HT, ewch i www.hta.gov.uk neu cysylltwch â:

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
Finlaison House
15–17 Furnival Street
Llundain
EC4A 1AB.

Ffôn 020 7211 3400
Ffacs 020 7211 3430
Ebost enquiries@hta.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael ar ein gwefan yn Saesneg, Wrdw, Gujarati, Punjabi, Hindi a Bengali.

Cyhoeddwyd ym Mawrth 2007.

Hawlfraint: Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol